

Cofrestr Tai Cyffredin Caerffili Ffurflen Polisi Gosod Lleol

Manylion yr ardal dan sylw:	Rhif:	
	Stryd(oedd):	Clos Ceirw, Clos Claerwen, Clos Gwendreath, Clos Afon Tywi, Clos Gronw
	Tref:	Fairview, Coed Duon
	Cod post:	NP12 3NS
Manylion yr eiddo dan sylw:	Nifer:	Mae cyfanswm o 121 eiddo, yn cynnwys:
	Ystafelloedd gwely:	32 – fflat ag 1 ystafell wely
	Math(au):	59 – tŷ â 2 ystafell wely 28 – tŷ â 3 ystafell wely 1 – tŷ â 4 ystafell wely 1 – tŷ â 5 ystafell wely
	Landlord(iaid):	Pobl
Rheswm dros wneud cais am bolisi gosod lleol:	<p>Mae ystâd Fairview yn Nhrelyn Uchaf, Coed Duon. Mae'n eiddo i Pobl. Cafodd ei hadeiladu tua 1991 ac mae'n cynnwys 5 stryd; Clos Ceirw, Clos Claerwen, Clos Gwendreath, Clos Afon Tywi a Clos Gronw. Mae cynllun yr ystâd yn golygu bod llawer o'r tai yn wynebu'r stryd, felly pan fydd unrhyw broblemau mae llawer o'r preswylwyr yn gallu gweld a chlywed yr hyn sy'n digwydd, ac maent yn cael eu heffeithio gan y digwyddiadau hyn.</p> <p>Mae Canolfan Gymunedol yng nghanol Clos Ceirw. Mae'r ystad gerllaw datblygiad newydd sy'n cynnwys tua 40 o dai.</p> <p>Mae Fairview yn adnabyddus am broblemau yn gysylltiedig â chyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig. Dros y 12 mis diwethaf, mae Heddlu Gwent wedi cydnabod hyn, ac wedi blaenoriaethu'r ardal ar gyfer patrols gweledol a heddweision yn eu dillad eu hunain. Mae hyn wedi cael rhywfaint o effaith, ond mae ardaloedd eraill wedi dod yn fwy o flaenoriaeth yn ystod y misoedd diwethaf.</p> <p>Mae Pobl wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Heddlu i fynd i'r afael â rhai o'r problemau sy'n wynebu Fairview, a thrwy wneud hyn, rydym wedi llwyddo i ymdrin â rhai materion. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn ddigonol i greu newid cadarnhaol yn Fairview.</p> <p>Mae dyrannu ar sail angen yn unig wedi arwain at grynodiad uchel o bobl ag anghenion cymorth, ac mae hyn yn effeithio ar gydbwysedd /harmoni'r ystad.</p> <p>Trwy roi Polisi Gosod Lleol ar waith, rydym yn gobeithio y bydd modd gwneud gwelliannau i'r ystad drwy annog rhagor o breswylwyr sy'n gweithio / ar hyfforddiant yn seiliedig ar waith / yn dilyn cyrsiau addysg uwch, gan gynyddu nifer y preswylwyr uchelgeisiol.</p>	

	<p>Rydym hefyd yn gobeithio y gallwn greu cymuned sy'n fwy cytbwys gyda mwy o deuluoedd dau-riant / rhagor o deuluoedd gydag o leiaf un oedolyn sy'n gweithio / mewn hyfforddiant / addysg.</p> <p>Rydym hefyd yn gobeithio y gall polisi gosod lleol fynd i'r afael ag anghenion cymorth uchel presennol Fairview, drwy leihau nifer y teuluoedd / unigolion y mae angen cymorth dwys arnynt.</p>
<p>Crynodeb o'r sail dystiolaeth i gefnogi polisi gosod lleol:</p>	<p><u>Ymddygiad gwrthgymdeithasol</u></p> <p>Yn ystod y 10 mis diwethaf, mae Pobl wedi cyflwyno 6 gwaharddeb yn erbyn preswylwyr, 1 gwaharddeb ac 1 gorchymyn gwahardd yn erbyn unigolyn nad yw'n breswylydd (o ganlyniad i ymosod a thrais), ac mae wedi cyflwyno 1 Rhybudd Adran 21, 3 Rhybudd Ffurfiol, 2 Rhybudd Ymddygiad Annerbyniol, ac 1 Contract Ymddygiad Derbyniol, i aelwydydd ar wahân.</p> <p>Mae un achos wedi bod yn destun Hysbysiad Ceisio Meddiant (NOSP) am dyfu canabis, lle cafodd swm sylweddol o offer tyfu ei ddarganfod ond dim planhigion – mae Pobl yn bwriadu gwneud cais i'r llys am orchymyn meddiant gohiriedig. Mae achos arall yn ymwneud â thyfu canabis (unwaith yn rhagor, cafodd offer tyfu ei ddarganfod yn unig), ac un achos arall lle cafodd y mesurydd trydan ei ddargyfeirio yn anghyfreithlon – bydd Pobl yn cymryd camau yn erbyn yr achosion hyn yn y dyfodol.</p> <p>Mae dau o'r gwaharddebau wedi cael eu torri. Yn un achos, nid oedd y torri gwaharddeb yn ddifrifol iawn, ond mae Pobl wedi cynghori y gellir dwyn unigolion gerbron y llys os bydd torri gwaharddeb sylweddol pellach. Yn yr achos arall, mae Pobl wedi atgyfeirio'r unigolyn at Tai yn Gyntaf i gael cymorth ychwanegol yn y gobaith y bydd modd ei ailagartrefu mewn man arall unwaith y bydd wedi gwneud newidiadau cadarnhaol a hirdymor i'w ymddygiad.</p> <p>Rhwng mis Ionawr 2020 a 18 Mawrth 2021, derbyniodd Pobl gyfanswm o 25 o gwynion yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Fairview. Roedd y cwynion hyn yn cynnwys problemau yn ymwneud â gwerthu/defnyddio cyffuriau, cam-drin geiriol, trais corfforol, sŵn. Mae hyn yn cyfateb i tua 20% o'r eiddo ar yr ystad.</p> <p>Yn gyffredinol, o'i gymharu â'r holl ardaloedd sy'n cael eu gosod yn y Dwyrain a'r Gorllewin, Fairview sydd ag un o'r lefelau uchaf o ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac mae yn yr 17^{eg} safle o 23 ar gyfer y cyfnod 1/1/2019-31/3/21 (y safle ar y brig (rhif 1) yw'r ardal lle mae'r nifer lleiaf o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a rhif 23 yw'r ardal gyda'r nifer uchaf o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol).</p> <p>Isod gwelir manylion yr achosion mwyaf difrifol a'r camau a gymerwyd hyd yma:</p>

Achos A – gwaharddeb heb rybudd wedi ei sicrhau yn 2020 oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol a defnydd o gyffuriau; sawl mân achos o dorri waharddeb (ni ddaeth yr achosion hyn o flaen y llys); cyflwynwyd NOSP ym mis Mawrth 2021.

Achos B – gwaharddeb heb rybudd a gwaharddiad wedi'i roi yn 2020 – bygwth a cham-drin cymdogion yn eiriol yn ogystal â thrais corfforol. Mae'r preswlydd wedi cael ei dderbyn fel cleient Tai yn Gyntaf yn ddiweddar oherwydd anghenion cymhleth yn ymwneud â'i ymddygiad a chamddefnyddio sylweddau.

Achos C – gwaharddeb heb rybudd wedi'i sicrhau yn 2020 oherwydd defnydd o gyffuriau ac ymddygiad troseddol

Achos D – sicrhawyd gwaharddeb yn 2020 oherwydd niwsans sŵn parhaus

Achos E – gwaharddeb heb rybudd wedi'i sicrhau yn 2020 o ganlyniad i fygwth staff

Achos D – sicrhawyd gwaharddeb heb rybudd yn 2020 oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig â'r defnydd o gyffuriau /alcohol

Achos E – gwaharddeb heb rybudd a gwaharddiad o Fairview wedi'i sicrhau yn 2020 yn erbyn unigolyn nad oedd yn un o denantiaid Pobl


Achos F – NOSP wedi'i gyflwyno ym mis Mawrth 2021 oherwydd y swm sylweddol o offer tyfu canabis yn yr eiddo, dargyfeirio'r mesurydd trydan a difrod i'r eiddo.

Achos G – dargyfeirio'r mesurydd trydan – bydd camau yn cael eu cymryd yn erbyn y denantiaeth

Fairview	2019 2020	2020 2021
Tenantiaethau a gafodd eu terfynu	11	14
hyd cyfartalog tenantiaeth (dyddiau)	579	396
hyd y denantiaeth fyrraf	242	48
hyd y denantiaeth hiraf	1312	1163

O'u cymharu â holl ardaloedd gosod eiddo yn y Dwyrain a'r Gorllewin, mae tenantiaethau cyfartalog Fairview ymhlith y byrraf dros y cyfnod 1/1/2019-31/3/21, ac yn y 19^{eg} safle o 23 ardal gosod. (1 yw'r gorau, 23 yw'r gwaethaf)

Fairview Tenancy end reasons 1/4/2019 - 31/3/2021



O'i chymharu â holl ardaloedd gosod y Dwyrain, yn Fairview y cafodd y nifer mwyaf o denantiaethau eu terfynu am resymau negyddol (cafodd 44.5% o'r holl denantiaethau eu terfynu am resymau negyddol)

Cyfeiriwch at y ddogfen atodol i weld dehongliad gweledol o'r wybodaeth.

Diogelu

Mae cyfran uchel o achosion diogelu yn Fairview yn ymwneud â phlant, oedolion a cham-drin domestig (yn erbyn menywod). Yn y cyfnod rhwng Ionawr 2020 ac 18 Mawrth 2021, rydym wedi cofnodi cyfanswm o 16 mater diogelu. Roedd chwarter ohonynt yn ymwneud yn benodol â cham-drin domestig, ac roedd chwarter arall yn gysylltiedig â phryderon am ddiogelwch plant.

Mae nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a diogelu difrifol yn cynyddu'r llwyth gwaith yn ystad Fairview ac mae hyn wedi arwain at weithio mewn partneriaeth gyda'r heddlu a gwasanaethau cam-drin domestig.

Mae gan Fairview gyfran uchel o breswylwyr â phroblemau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau. Mae hanner yr achosion diogelu ar yr ystad ers mis Ionawr 2020 wedi bod yn gysylltiedig â phryderon yn ymwneud ag iechyd meddwl/camddefnyddio sylweddau. Mae llawer o breswylwyr wedi dweud bod problemau ar yr ystad wedi cael effaith andwyol ar eu hiechyd meddwl a'u gwneud yn fwy agored i niwed.

O ran cyfansoddiad aelwydydd, mae 42% o'r aelwydydd ar yr ystad yn cynnwys 2 grŵp - benywod sengl (18%) a theuluoedd rhiant sengl benywaidd (24%), ac mae Pobl yn credu bod hyn wedi effeithio ar lefel y materion diogelu yn Fairview. Mae llawer o'r achosion cam-drin domestig wedi cael eu cyfeirio at Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) ac wedi arwain at adleoli rhai preswylwyr ar frys am resymau diogelu.

Yn fwy diweddar, rydym wedi gweld ymgeiswyr yn gwrthod o leiaf 2 eiddo ar ôl ymweld â'r ardal, oherwydd eu pryderon ynglŷn â'r ystad.

Ôl-ddyledion rhent

Mae gan 81% o'r rheini sy'n byw yn Fairview ôl-ddyledion rhent, ac mae 68% o'r rhain ar fudd-daliadau (Budd-dal tai neu Gredyd Cynhwysol llawn neu rannol). At hyn, mae gan dros chwarter y preswylwyr (27%) ôl-ddyledion rhent o £501 neu fwy, ac mae gan 16 o denantiaethau ôl-ddyledion o dros £1000.

Ac eithrio'r hyn a nodwyd uchod, gan fod y prif faterion yn Fairview yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol/troseddol, nid yw'r Polisi Gosod Lleol hwn yn ymdrin yn fanwl ag ôl-ddyledion rhent. Fodd bynnag, mae'n bosibl cadarnhau'r canlynol:

Mis	Gwahaniaeth yn y ffigur dyledion net ar gyfer ardal Incwm gan gynnwys Fairview yn erbyn Caerffili yn gyffredinol
Ebrill 2020	Dyledion net 0.4% yn uwch
Medi 2020	Dyledion net 0.75% yn uwch
Rhagfyr 2020	Dyledion net 0.9% yn uwch
Mawrth 2021	Dyledion net 1.3% yn uwch

Nid ydym wedi gallu darparu rhagor o wybodaeth ynglŷn ag effaith COVID-19 ar ddyledion rhent.

Amcan polisi gosod lleol:

Mae Pobl yn credu bod y ffactorau uchod wedi arwain at greu cymuned anghytwys, sydd wedi'i gogwyddo mewn ffordd negyddol tuag at bobl ar incwm isel a'r rheini sy'n aml ymhlith y mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at gynnydd mewn materion yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, defnyddio/gwerthu cyffuriau a throseddu yn ogystal â lefelau uwch o bryderon diogelu. Os na fydd y materion hyn yn cael sylw drwy Polisi Gosod Lleol mae perygl y bydd Fairview yn troi'n ystad lle na fydd neb am fynd, lle bydd llawer o eiddo gwag sy'n anodd eu gosod, a bydd hyn yn effeithio ar allu Pobl i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghaerffili.

Bydd polisi gosod lleol yn ein galluogi ni i greu cymuned fwy cytwys a chynaliadwy ac i gadw ein henw da fel landlord cymdeithasol.

Bydd hefyd yn rhoi cyfle i ni reoli'r problemau sy'n bodoli ar hyn o bryd, rhoi sicrwydd i'n tenantiaid ein bod ni'n gweithio'n galed ac yn rhagweithiol i wella eu cymuned a'i gwneud yn lle diogel a braf i fyw.

Cyfyngiadau i'w gosod ar osodiadau:

Dim ymgeiswyr â hanes sylweddol o gamddefnyddio sylweddau yn ystod y 18 mis diwethaf:

Eglurder o ran dehongli termau

Gall hanes sylweddol o gamddefnyddio sylweddau gynnwys amhariad neu ofid sylweddol sy'n dod i'r amlwg oherwydd un (neu ragor) o'r canlynol, yn digwydd o fewn cyfnod o 12 mis:

- Defnydd ailadroddus o sylweddau yn arwain at fethiant i gyflawni rhwymedigaethau pwysig yn y gwaith, ysgol, neu'r cartref (e.e. absenoldebau parhaus neu berfformiad gwael yn y gwaith yn gysylltiedig â defnyddio sylweddau; absenoldebau yn gysylltiedig â sylweddau, gwaharddiadau dros dro neu waharddiadau parhaol o'r ysgol; esgeuluso plant neu'r cartref);
- Defnydd ailadroddus o sylweddau mewn sefyllfaedd lle mae hynny'n beryglus yn gorfforol (e.e., gyrru car modur neu ddefnyddio peiriant o dan ddylanwad sylwedd);
- Problemau cyfreithiol ailadroddus yn gysylltiedig â sylweddau (e.e. arestio am ymddygiad afreolus yn gysylltiedig â sylweddau);
- Defnydd parhaus o sylweddau er gwaethaf problemau cymdeithasol neu ryngpersonol parhaus a achoswyd neu a waethygyd gan effeithiau'r sylwedd (e.e. dadlau gyda chymar am ganlyniadau meddwdod, ffraeo corfforol).

Dim ymgeiswyr ag euogfarnau heb ddarfod am droseddau treisgar, lladrad/bwrgleriaeth a/neu droseddau dwyn.

Mae canllaw i Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (fel y'i diwygiwyd yn 2014) ar gael ar waelod y dudalen hon.

Dim ymgeiswyr sydd â geirda gwael fel tenant yn ystod y 3 blynedd diwethaf yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys derbyn y canlynol: - gwahardeb, gorchymyn meddiant, rhybudd yn gofyn am feddiant, rhybudd israddio neu orchymyn israddio, rhybudd Adran 21 oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, Gorchymyn Ymddygiad Troseddol, Hysbysiad Gwarchod y Gymuned, gorchymyn cau.

Rhaid i ymgeiswyr sydd wedi bod yn ddigartref gael geirda cadarnhaol gan y tîm cyngor tai o ran eu hymddygiad mewn llety dros dro.

Rhaid i ymgeiswyr sydd ar y rhestr aros gyffredinol nad ydynt yn gallu dangos bod ganddynt hanes cadarnhaol o gynnal tenantiaeth drwy eirda Landlord gael naill ai:

- i. Geirda cadarnhaol gan weithiwr cymorth proffesiynol perthnasol mewn perthynas ag ymddygiad cyffredinol neu
- ii. Geirda gan weithiwr proffesiynol arall sy'n eu hadnabod yn bersonol.

	Rhaid cysylltu â'r tîm digartrefedd i sicrhau nad oes unrhyw newid yn amgylchiadau ymgeisydd a allai olygu ei fod yn gymwys o dan y Polisi Gosod Lleol.	
Manylion unrhyw ymgynghoriad gyda'r gymuned:	Byddai'r tenantiaid sydd wedi cael eu heffeithio gan y problemau cysylltiedig sydd wedi digwydd yn ystod y 12/18 mis diwethaf yn croesawu Polisi Gosod Lleol er mwyn sicrhau bod Fairview yn mynd yn ôl i fod yn gymuned fwy cytbwys a diogel.	
Crynodeb o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb:	Nid yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn codi unrhyw bryderon mawr o ran y Polisi Gosod Lleol.	
Dyddiad gweithredu:	Cyn gynted â phosibl.	
Dyddiad terfynu:	12/05/2023	
Amlder adolygu:	Bob 6 mis ar ôl dechrau'r Polisi Gosod Lleol am gyfnod o 2 flynedd. Bydd yr adolygiad 6 mis yn edrych ar fandiau dyrannu i weld a oes angen diwygio'r Polisi Gosod Lleol yn gyffredinol neu ar gyfer strydoedd penodol yn Fairview.	
Trefniadau monitro ac adolygu:	Er mwyn galluogi'r Cyngor i asesu lefel effaith y Polisi Gosod Lleol ar osod eiddo i ymgeiswyr band 1, 2 a 3, bydd Pobl yn rhoi dadansoddiad o unrhyw benderfyniadau gosod i'r Cyngor bob chwe mis.	
Swyddog sy'n gwneud y cais:	Enw:	Angela Harris
	Safle:	Rheolwr Cymdogaeth Ardal
	Sefydliad:	Pobl
Dyddiad:	14 Ebrill 2021.	
Penderfyniad y Panel:	Cymeradwywyd	
Dyddiad:	12/05/2021	
Manylion y penderfyniad:	Er mwyn galluogi'r Cyngor i asesu lefel effaith y Polisi Gosod Lleol ar osod eiddo i ymgeiswyr band 1, 2 a 3, bydd Pobl yn rhoi dadansoddiad o unrhyw benderfyniadau gosod i'r Cyngor bob chwe mis.	

Is it spent?

The Rehabilitation of Offenders Act 1974 gives people with spent convictions and cautions the legal right not to disclose them when applying for most jobs and for other purposes, like when buying insurance.

Apart from those individuals who are given prison sentences of more than 4 years, most people with convictions will benefit from it at some point in their lives. The table below sets out the time it takes for the main sentences to become spent following the changes that were introduced in 2014. This is known as the 'rehabilitation period' for the conviction. A conviction may have a number of rehabilitation periods depending on the sentence - in this situation, the longest one applies.

If you have access to the internet, you can also use our online tool www.disclosurecalculator.org.uk

Prison sentences & Community orders (with a buffer period)


Sentence		Time it takes to become spent	
		Adult (18+) at conviction/disposal	Young person (U18) at conviction/disposal
Prison (including suspended prison sentences)	Over 4 years or a public protection sentence	Never spent	Never spent
	More than 30 months and less than (or equal to) 4 years	Full sentence + 7 years*	Full sentence + 3 ½ years*
	More than 6 months and less than (or equal to) 30 months	Full sentence + 4 years*	Full sentence + 2 years*
	Less than (or equal to) 6 months	Full sentence + 2 years*	Full sentence + 18 months*
Community order / Youth rehabilitation order		Full length of the order + 1 year	Full length of the order + 6 months

*Sentence length includes time spent on licence

Other community sentences (with no buffer period)

Sentence/Disposal	Time it takes to become spent (from date of conviction)	
	Adult (18+) at conviction/disposal	Young person (U18) at conviction/disposal
Fine	1 year	6 months
Conditional discharge	Length of the order	Length of the order
Absolute discharge	Spent immediately	
Conditional caution / youth conditional caution	3 months (or when it ends, if earlier)	3 months
Simple caution / youth caution	Spent immediately	
Compensation order	Once it is paid in full	
Bind over	Length of the order	
Hospital order (with or without restrictions)		
Referral order		
Reparation order	Spent immediately	
Endorsement (imposed by a court)	5 years	2 ½ years
Motoring disqualification (imposed by a court)	Length of the disqualification	
Relevant order	Length of the order	

Cefn Fforest; 138 Uned; 27 Ends



Ends by Te

- **Not
- Tenar
- Term
- Trans
- <5% ç

Ends by Tei

- Five Y
- Fourt
- Less T
- One to
- Three
- Two to

A fydddech cystal â sicrhau bod y ffurflen wedi cael ei llenwi'n llawn cyn ei hanfon drwy e-bost diogel at y tîm cofrestr tai cyffredin yn CofrestrTaiCyffredin@caerffili.gov.uk . Mae croeso i chi ffonio 01443 873521 os hoffech siarad gydag aelod o'r tîm.

